

# Bwriwch olwg fanylach ar... BRIDD

Mae'r pridd o dan ein traed yn fyd byw, anhygoel - y rhan fwyaf ohono yn anweledig i'r llygad. Mae pridd, sef haenen allanol ein planed, yn cael ei ffurfio o graig a faluriwyd dros filoedd o flynyddoedd a ddeunydd organig a gafodd ei greu o blanhigion ac anifeiliaid yn pydru. Ni fyddai'r un o'n planhigion, na'r anifeiliaid sy'n bwydo arnyn nhw, yn bodoli oni bai am bridd byw! Mae un llwy de o bridd iach yn gallu cynnwys mwy o bethau byw na chyfanswm poblogaeth y Ddaear - sef dros 7 biliwn!

- Mae priddoedd yn helpu i gynnal bywyd planhigion trwy roi maetholion, dŵr ac awyr iddyn nhw.
- Mae'n cymryd 500 mlynedd i gynhyrchu dim ond 2cm o uwchbridd - mae angen inni ofalu amdano!
- Bwyd, dillad, coed, dŵr glân - meddylwch am funud sut mae pridd yn helpu i roi'r holl bethau hanfodol hyn inni.
- Mae cyfanswm rhyfeddol o 5000 o fathau gwahanol o facteria yn gallu bod mewn un gram o bridd - a chyda ffyngau nhw yw gwasanaeth ailgylchu'r pridd!
- Mae mwydod yn cyfoethogi uwchbridd trwy fwydo ar ddeunydd organig yn y pridd a'i droi'n faetholion ar gyfer planhigion. Mae eu twneli yn helpu dŵr i lifo trwy'r pridd ac yn helpu awyr i dreiddio i'r pridd.



© Shutterstock

**Ewch i'r Gymdeithas Brydeinig ar gyfer Gwyddor Pridd i ddysgu mwy am bridd a gwefan y Cyngor i gael gwybod mwy am fywyd gwylt rhyfeddol Sir Gaerfyrddin.**



Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin  
Carmarthenshire Biodiversity Partnership



**Cyfoeth  
Naturiol  
Cymru  
Natural  
Resources  
Wales**

**Cyngor Sir Gâr  
Carmarthenshire  
County Council**